

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Deintyddfa Ravenhill

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae

Abertawe

Dyddiad arolygu: 09 Rhagfyr 2019

Dyddiad cyhoeddi: 10 Mawrth

2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	25
4.	Beth nesaf?	28
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	30
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	31
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	33
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	34

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa Ravenhill yn 566 Middle Road, Abertawe, SA5 5DH, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 09 Rhagfyr 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Deintyddfa Ravenhill yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Roedd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir yn y practis yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd y staff yn cael eu cefnogi gan drefniadau rheoli ac arwain da.

Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth bod angen i'r practis wneud mwy i gydymffurfio â'r rheoliadau, y safonau a'r canllawiau arferion gorau cyfredol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn gwrtais, yn dangos parch ac yn broffesiynol wrth ymdrin â chleifion
- Roedd y cleifion yn derbyn digon o wybodaeth i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynglŷn â'u triniaeth
- Roedd trefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod y safle a'r cyfleusterau clinigol yn addas at y diben
- Roedd yr aelodau o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roeddent wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Hyrwyddo'r gwasanaethau y gall eu darparu i gleifion yn Gymraeg
- Gosod cyfleusterau storio er mwyn i'r staff storio eu heiddo personol
- Cynnal mwy o weithgareddau archwilio er mwyn asesu a monitro'n llawn ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i'r cleifion
- Cymryd camau pellach i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau

- Sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cynnal yn unol â safon broffesiynol y cytunwyd arni.

Gwnaethom nodi achosion o dorri rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn mewn perthynas â'r canlynol:

- Diogelwch tân – gwelsom nad oedd y practis wedi cynnal archwiliad o'r cylched trydanol sefydlog eto fel yr argymhellwyd mewn asesiad risg diogelwch tân diweddar a gynhaliwyd gan arbenigwr diogelwch tân
- Atal a rheoli heintiau – nid oedd y practis yn defnyddio dull addas o gofnodi cylchoedd sterileiddio â llaw er mwyn sicrhau bod awtoclafau heb gofnodwyr data awtomataidd yn sterileiddio'r offer deintyddol yn effeithiol.

Oherwydd yr effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad. Ceir rhagor o fanylion am y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad A.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Deintyddfa Ravenhill yn darparu gwasanaethau i gleifion yn Abertawe a'r cyffiniau. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae gan y practis dîm mawr o staff. Mae'r 12 aelod o staff yn cynnwys tri deintydd, saith nyrs ddeintyddol ddynodedig, rheolwr practis, sydd hefyd yn nyrs ddeintyddol gymwysedig, ac un nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, roedd gan Ddeintyddfa Ravenhill brosesau addas ar waith er mwyn helpu cleifion i gael profiad cadarnhaol yn y practis.

Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth ysgrifenedig am gynnal hylendid y geg da i blant ac oedolion ar gael yn yr ystafell aros.

Roedd y cleifion yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff yn y practis a gwnaethant sôn ei bod hi'n hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 41 o holiaduron.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r staff yma bob amser yn gwrtais iawn ac yn barod eu cymorth"

"Rwyf wedi cael deintyddion gofalgarg ac mae'r rheolwyr a'r tîm gweinyddol yn darparu gwasanaeth ardderchog i gwsmeriaid"

"Mae'r safon yn dda iawn drwyddi draw. Rwy'n hapus iawn gyda'm deintyddfa"

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod amrywiaeth dda o daflenni hybu iechyd ar gael yn yr ystafell aros er mwyn i'r cleifion eu darllen a mynd â nhw gyda nhw. Roedd hyn yn cynnwys

gwybodaeth am roi'r gorau i smygu a sut i gynnal iechyd da y geg ar gyfer plant ac oedolion. Gwelsom fod siartiau'n cael eu harddangos hefyd er mwyn tynnu sylw'r cleifion at y lefel uchel o siwgr mewn gwahanol ddiodydd meddal a melysion. Nodwyd gennym fod hyn yn arfer dda.

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y tîm deintyddol wedi dweud wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal ag urddas

Gwelsom y staff yn siarad â chleifion yn bersonol a thros y ffôn mewn modd cwrtais a phroffesiynol. Yn ddieithriad, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Gwelsom fod y trefniadau sydd ar waith yn y practis yn helpu i ddiogelu preifatrwydd y cleifion. Yn y dderbynfa, roedd desg fawr wedi'i lleoli wrth ymyl y drws ffrynt ac ar wahân i'r ystafell aros, a oedd yn golygu bod y staff yn gallu cynnal sgysiau â'r cleifion heb gael eu clywed. Cadarnhaodd y staff, pe bai claf am gael sgwrs fwy preifat yna byddai hyn yn digwydd yn un o'r deintyddfeydd a oedd ar gael. Gwnaethom nodi bod y staff yn cau drws pob deintyddfa yn ystod triniaethau er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd gan y practis bolisi cyfrinachedd ar waith a oedd yn helpu'r staff i gydnabod pwysigrwydd cadw gwybodaeth y cleifion yn gyfrinachol ac yn disgrifio sut y dylid defnyddio gwybodaeth o'r fath.

Gwelsom nad oedd y 9 Egwyddor¹ a ddatblygwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (CDC) ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae'r CDC yn ei gwneud hi'n ofynnol bod yr egwyddorion yn cael eu harddangos mewn ardal lle gall y cleifion eu gweld yn hawdd er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r safonau gofal y gallant ddisgwyl eu derbyn gan weithwyr deintyddol proffesiynol. Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig ynglŷn â hyn a derbyniwyd tystiolaeth yn fuan ar ôl yr arolygiad a oedd yn dangos bod yr egwyddorion bellach ar gael i'r cleifion eu gweld.

¹ Mae naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n berthnasol i weithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig.

Gwybodaeth ar gyfer cleifion

Gwelsom fod gwybodaeth am daliadau ar gyfer cleifion y GIG wedi'i harddangos yn yr ystafell aros. Roedd rhestr brisiau ar gyfer triniaethau preifat ar gael wrth ddesg y dderbynfa. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y gost bob amser yn cael ei hegluro iddynt cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Roedd gan y practis gopiâu o'r daflen wybodaeth i gleifion sydd ar gael i'r cleifion wrth ddesg y fynedfa. Gwnaethom edrych ar y daflen wybodaeth i gleifion a chopi o'r datganiad o ddiben² a gwelsom fod y ddwy ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Gwelsom fod enwau'r deintyddion yn cael eu harddangos y tu allan i'r adeilad ond mae canllawiau'r CDC yn argymhell y dylai enwau a rhifau CDC yr holl dîm deintyddol gael eu harddangos y tu mewn i'r adeilad mewn ardal lle y gall y cleifion eu gweld yn hawdd. Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig ynglŷn â hyn a derbyniwyd tystiolaeth yn fuan ar ôl yr arolygiad bod rhestr bellach ar gael i'r cleifion ei gweld yn yr ystafell aros.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn gallu siarad â staff yn ei ddewis iaith bob amser.

Nid oedd y practis yn gweithredu gwasanaeth dwyieithog. Fodd bynnag, gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth ar gael i'r cleifion yn Gymraeg a Saesneg. Cadarnhaodd y practis fod rhai o'r staff clinigol yn gallu darparu gwasanaeth dwyieithog i gleifion Cymraeg. Argymhellwn fod y practis yn gwneud mwy i hybu'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael i gleifion er mwyn helpu i fodloni gofyniad y Safonau Iechyd a Gofal, sef bod cleifion Cymraeg eu hiaith yn cael cynnig gwasanaethau iaith sy'n diwallu eu hanghenion.

² Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio Datganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir.

Lle y bo'n gymwys, dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth, cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny, a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y cleifion a gwelsom mai gwybodaeth gyfyngedig a gofnodwyd ynghylch yr opsiynau triniaeth a gynigiwyd i'r cleifion. Rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion y cleifion yn adlewyrchu'n llawn yr opsiynau triniaeth a gynigir ac a drafodir â'r cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud mwy i hyrwyddo'r gwasanaethau y gall eu darparu i gleifion yn Gymraeg.

Rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion y cleifion yn adlewyrchu'n llawn yr opsiynau triniaeth a gynigir ac a drafodir â'r cleifion.

Gofal amserol

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin mewn modd amserol. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi wrth gyrraedd, neu cyn gynted â phosibl wedi hynny. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn gallu cyfathrebu drwy wasanaeth negeseua uniongyrchol rhwng y dderbynfa a'r deintyddfeydd er mwyn sicrhau bod unrhyw oedi'n cael ei gyfleu'n effeithiol.

Dywedwyd wrthym fod unrhyw gleifion y mae angen triniaeth frys arnynt yn ystod oriau gwaith yn cael eu gweld ar yr un diwrnod lle bynnag y bo modd. Caiff cleifion y mae angen gofal brys arnynt y tu allan i oriau eu cyfeirio at y gwasanaethau deintyddol a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Cadarnhaodd bron traean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC na fyddent yn gwybod sut i gael gafaél ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Fodd bynnag, gwelsom fod gwybodaeth yn rhoi gwybod i gleifion sut y gallant gael gafaél ar driniaeth y tu allan i oriau wedi'i harddangos y tu allan i'r brif fynedfa ac yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Lle y bo'n berthnasol, cadarnhaodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth. ³Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion yr edrychwyd arnynt fod gwiriadau hanes meddygol yn cael eu cofnodi ym mhob apwyntiad. Rhaid i bob deintydd sicrhau bod gwiriadau hanes meddygol ar lafar yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion yn unol â gofynion canllawiau proffesiynol.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn cyd-fynd â datganiad o ddiben y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob deintydd yn cofnodi unrhyw wiriadau hanes meddygol a gwblhawyd ar lafar gyda'r cleifion yn ystod pob apwyntiad yn briodol yng nghofnodion y cleifion.

Hawliau pobl

Gwelsom fod polisi cyfle cyfartal ar waith yn y practis, er mwyn helpu i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Roedd gan y practis hefyd bolisi yn nodi'r trefniadau ar gyfer derbyn cleifion newydd, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

³ Mae hanes meddygol claf yn helpu'r deintydd i ddeall clefydau posibl neu i nodi meddyginiaeth a allai effeithio ar driniaeth ddeintyddol claf.

O ran mynediad ffisegol, nid oedd gan y practis faes parcio, ond roedd lle i barcio gerllaw ar strydoedd preswyl lleol. Roedd ramp ar gael i helpu cleifion i fynd i mewn drwy'r drws ffrynt os oedd angen. Roedd y dderbynfa, yr ardal aros, y toiledau a'r deintyddfeydd i gyd ar y llawr gwaelod, ac yn hygyrch i bawb gan gynnwys pobl ag anawsterau symudedd.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom fod holiaduron papur ar gael ar ddesg y dderbynfa i'r cleifion roi adborth am eu profiadau, a oedd yn helpu'r practis i fonitro ansawdd y gwasanaethau deintyddol cyffredinol roedd yn eu darparu. Dywedwyd wrthym fod y canlyniadau a sylwadau penodol gan gleifion yn cael eu monitro a bod camau gweithredu yn cael eu cymryd lle y bo angen.

Roedd y weithdrefn i'w dilyn gan gleifion a oedd am wneud cwyn neu godi pryder gyda'r practis am eu gofal wedi'i hamlinellu mewn hysbysiad cwyno a oedd wedi'i arddangos yn yr ystafell aros. Roedd poster Gweithio i Wella⁴ wedi'i arddangos hefyd er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion sy'n derbyn triniaeth y GIG y gallant gysylltu â'r bwrdd iechyd os na ellir dod o hyd i ddatrysiad. Gwnaethom argymhell i'r rheolwr cofrestredig y dylid ychwanegu manylion cyswllt AGIC at yr hysbysiad cwyno fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau er mwyn hysbysu'r cleifion sy'n derbyn triniaeth breifat y gallant gysylltu ag AGIC os nad ydynt yn fodlon ar y ffordd yr ymdriniwyd â'u cwyn. Gwnaethom dderbyn tystiolaeth yn fuan ar yr arolygiad a oedd yn dangos bod yr hysbysiad cwyno wedi'i ddiweddarau fel sy'n ofynnol.

Roedd polisi ar wahân ar gael ar gyfer ymdrin â chwynion hefyd er mwyn galluogi'r staff i ddelio ag unrhyw gwynion yn effeithiol ac yn amserol. Argymhellwn fod manylion cyswllt AGIC yn cael eu hychwanegu at y polisi ymdrin â chwynion er mwyn sicrhau y gall staff gyfeirio'r cleifion sy'n derbyn triniaeth breifat at AGIC yn briodol os bydd angen.

⁴ Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon gan gleifion am ofal a thriniaeth yn GIG Cymru.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis ychwanegu manylion cyswllt AGIC at y polisi ymdrin â chwynion.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

At ei gilydd, roedd y practis yn ymrwymedig i ddarparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd y practis yn cyrraedd y safonau ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ar waith i ddiogelu gwybodaeth cleifion a rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel yn unol â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Nodwyd rhai gwelliannau y gellid eu gwneud o ran y gweithdrefnau atal a rheoli heintiau sydd ar waith yn y practis.

Mae angen gwneud mwy i gadw cofnodion cleifion yn unol â deddfwriaeth, safonau a chanllawiau arferion gorau cyfredol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod gan y practis bolisiâu, gweithdrefnau ac asesiadau risg ar waith er mwyn sicrhau bod y safle yn ddiogel ac yn addas at y diben er mwyn helpu i ddiogelu llesiant y staff ac ymwelwyr â'r practis.

Mae'r adeilad wedi cael ei ddefnyddio fel deintyddfa ers 1946. Roedd y décor yn draddodiadol ond yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn ôl pob golwg ac roedd ardal y dderbynfa a'r ystafell aros yn agored ac yn groesawgar. Gwnaethom archwilio'r deintyddfeydd a gwelsom fod angen selio'r rhan rhwng yr arwyneb gwaith a'r wal yn neintyddfa un er mwyn sicrhau ei bod yn darparu ardal glinigol anhydraidd y gellir ei glanhau. Roedd pob rhan o'r practis yn lân ac yn rhydd o beryglon amlwg. Roedd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Gwelsom fod polisi iechyd a diogelwch ar waith a bod asesiadau risg wedi'u cynnal yn flynyddol er mwyn helpu i nodi risgiau posibl i'r staff a'r cleifion a'u lliniaru. Roedd poster cyfraith iechyd a diogelwch yn cael ei arddangos yn yr ystafell staff ond nodwyd nad oedd yn gyfredol. Argymhellwn fod y practis yn trefnu i brynu ac arddangos y poster cyfraith iechyd a diogelwch diweddaraf er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r canllawiau diweddaraf ar sut y gallant ddiogelu eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain orau yn y gweithle.

Gwelsom fod dyfeisiau diffodd tân priodol ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad a nodwyd gennym eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau bod yr offer yn gweithio'n briodol. Gwnaethom edrych ar asesiad risg tân a gynhaliwyd ym mis Hydref 2019 gan gwmni diogelwch tân. Gwnaethom sylwi nad oedd y practis wedi cynnal archwiliad o'r cylched trydanol sefydlog fel yr argymhellwyd yn yr asesiad risg. Ceir manylion am y ffordd y cafodd ein pryderon ynglŷn â'r mater hwn eu datrys yn Atodiad A.

Roedd arwyddion ar gyfer allanfeydd tân ac arwyddion dim smygu wedi'u harddangos ym mhob rhan o'r practis er mwyn atgoffa'r staff a'r cleifion am y ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg⁵.

Roedd gan y practis bolisi parhad busnes a strategaeth adfer ar ôl trychineb fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau, a oedd yn nodi'r cynlluniau wrth gefn a oedd ar waith i sicrhau y gallai'r practis barhau i weithredu'n ddiogel pe bai argyfwng neu drychineb naturiol.

Roedd y staff yn gallu newid mewn sawl ystafell ym mhob rhan o'r practis er mwyn helpu i ddiogelu eu preifatrwydd a'u hurddas. Fodd bynnag, argymhellwn y dylai'r practis sicrhau bod cyfleusterau storio ar gael i'r staff storio eu heiddo personol, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

⁵ Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 – Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen selio'r rhan rhwng yr arwyneb gwaith a'r wal yn neintyddfa un.

Rhaid i'r practis ddarparu cyfleusterau storio i'r staff storio eu heiddo personol.

Atal a rheoli heintiau

Gwnaethom edrych ar y trefniadau sydd ar waith yn y practis mewn perthynas â glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁶. Roedd ystafell ddihalogi ddynodedig wedi'i lleoli yng nghefn y practis a gwelsom ei bod yn dilyn llwybr dihalogi budr i lân. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod yr ardal ddynodedig a neilltuwyd ar gyfer derbyn offer halogedig yn anniben, a gwnaethom gynghori'r practis i dacluso'r arwyneb gwaith a sicrhau na chaiff ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw weithgarwch arall.

Roedd gan y practis ddulliau ac offer priodol i sicrhau bod offer deintyddol yn cael eu sterileiddio ymlaen llaw yn effeithiol. Gwelsom fod ffurflenni argraffedig ar wahân yn cael eu defnyddio i gofnodi'r gwaith glanhau a wnaed â llaw a gwnaethom argymhell i'r rheolwr cofrestredig y gallai cofnodlyfr dynodedig fod yn ffordd fwy addas o gofnodi'r gwaith hwn. Gwnaethom dderbyn tystiolaeth yn fuan ar ôl yr arolygiad a oedd yn dangos bod cofnodlyfr wedi'i archebu i gofnodi'r gwaith glanhau â llaw.

Roedd tri awtoclaf, un ar gyfer pob deintydd, yn cael eu defnyddio ar gyfer y broses sterileiddio. Roedd gan un o'r awtoclafau gofnodydd data ar wahân i fonitro a chofnodi data o bob cylch yn awtomatig er mwyn sicrhau bod yr awtoclaf yn cyrraedd y pwysedd a'r tymheredd cywir a'r amser cylch sydd ei angen ar gyfer proses sterileiddio effeithiol. Fodd bynnag, nid oedd gan y ddau

⁶ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

awtoclaf arall gofnodydd data ar wahân. Er bod y practis yn gwneud rhai cofnodion â llaw ar gyfer pob cylch sterileiddio, ni allem fod yn gwbl sicr bod yr awtoclafau hyn yn sterileiddio'r offer deintyddol yn effeithiol. Ceir manylion am y ffordd y cafodd ein pryderon ynglŷn â'r mater hwn eu datrys yn Atodiad A.

Dywedwyd wrthym, ar ôl i offer deintyddol gael ei sterileiddio, y byddai'r offer hwnnw'n cael ei gludo i bob deintyddfa ac yna'i roi mewn bagiau. Argymhellwn, yn y dyfodol, y dylai offer deintyddol sydd wedi cael ei sterileiddio gael ei roi mewn bagiau yn yr ystafell ddihalogi er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi er mwyn helpu i leihau'r posibilrwydd y byddent yn dod i gysylltiad â heintiau. Gwelsom fod gan y practis bolisiau a gweithdrefnau a oedd yn nodi'r mesurau rheoli heintiau gwahanol a oedd ar waith yn y practis, megis y trefniadau ar gyfer gweithdrefnau hylendid dwylo addas.

Roedd contract ar waith i drosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod bagiau yn llawn gwastraff peryglus yn cael eu storio mewn ystafell dan glo. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd y bagiau wedi cael eu clymu'n dynn. Rhaid i'r practis ddefnyddio clymau plastig i gau pob bag yn unol â WHTM 07-01⁷.

Cawsom olwg ar gofnodion y staff a gwelsom fod gan bob aelod o'r staff clinigol sy'n gweithio yn y practis statws imiwneiddio derbyniol rhag Hepatitis B. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid pecynnu offer deintyddol sydd wedi'i sterileiddio yn yr ystafell ddihalogi.

Rhaid defnyddio clymau plastig i gau pob bag sy'n cynnwys gwastraff peryglus pan fo'n llawn.

⁷ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/254/WHTM%2007-01.pdf>

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod gan y practis bolisi rheoli meddyginiaethau a oedd yn nodi'r gweithdrefnau a'r trefniadau sydd ar waith yn y practis mewn perthynas ag ymdrin â meddyginiaethau, eu cadw'n ddiogel a'u gwaredu. Gwelsom fod ffolderi plastig yn cael eu defnyddio i storio meddyginiaethau ochr yn ochr â siartiau llif a oedd yn amlinellu'r camau i'w cymryd mewn argyfwng meddygol. Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried defnyddio ffolderi y gellir eu selio yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod y meddyginiaethau a'r siartiau llif yn cael eu storio gyda'i gilydd yn ddiogel.

Roedd cyffuriau brys a chyfarpar dadebru brys ar gael yn y practis ac roeddent yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁸. Roedd gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal a'u dogfennu mewn perthynas â'r cyffuriau a'r cyfarpar brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn ddiogel i'w defnyddio, a nodwyd gennym fel arfer da.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddadebru cardio-anadlol brys (CPR). Roedd dau aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf er mwyn sicrhau y gellir trin unrhyw un yn y practis y mae angen cymorth cyntaf arno yn briodol.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r angen i roi gwybod i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) am unrhyw adweithiau niweidiol i feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol a brofwyd gan gleifion drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn⁹, er mwyn helpu MHRA i fonitro a yw cynhyrchion gofal iechyd yn cyrraedd lefelau diogelwch derbyniol i gleifion a'r rheini sy'n eu defnyddio.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y practis bolisi diogelu ar waith er mwyn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a oedd yn cynnwys gweithdrefnau i'r staff eu dilyn pe bai unrhyw bryderon ynghylch diogelu unigolion. Roedd y polisi yn cynnwys manylion er mwyn i'r staff roi gwybod i'r asiantaethau diogelu lleol perthnasol

⁸ <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-care-equipment-and-drug-lists/>

⁹ <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/>

am unrhyw bryderon. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod y rhif cyswllt yn anghywir a gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig i'w ddiweddarau.

Yn ystod yr arolygiad cawsom sgwrs ag aelodau o'r staff ac roeddent yn gallu disgrifio'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon yn ymwneud â diogelu.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu plant ac roedd pob aelod o'r staff ond un wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi'i hyfforddi'n briodol i lefel 2 bob amser. Gwnaethom dderbyn tystiolaeth yn fuan ar yr arolygiad a oedd yn dangos bod yr aelod o staff bellach wedi cwblhau'r hyfforddiant.

Gwelsom fod polisi recriwtio ar waith a oedd yn nodi'r gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal mewn perthynas ag unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gofyn am eirdaon gan gyn-gyflogwyr a thystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)¹⁰ er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn addas i weithio mewn practis deintyddol yn unol â'r rheoliadau.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom archwilio'r cyfleusterau clinigol yn y practis a gwelsom fod y cyfarpar deintyddol ym mhob deintyddfa wedi cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod mewn cyflwr da.

Mae'r practis yn defnyddio chwistrellau anaestetig lleol metel traddodiadol y gellir eu haildefnyddio. Argymhellwn y dylid cynnal asesiad risg o'r broses hon ac y dylid defnyddio dyfeisiau diogelwch priodol fel giardiau nodwydd er mwyn lliniaru'r risg y ceir anaf damweiniol. Fel arall, gallai'r practis ddefnyddio chwistrellau tafladwy ar gyfer rhoi anaestetig lleol sy'n cynnwys system ddiogelwch i amddiffyn rhag anaf damweiniol.

¹⁰ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel a chawsom sicrwydd fod y practis yn gweithredu'n unol â'r canllawiau a bennwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017. Dyma'r rhesymau dros hyn:

- Roedd y tîm deintyddol wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd Ïoneiddio
- Roedd y cyfarpar pelydr-X wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd ac roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ar gael a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol mewn perthynas â defnyddio a chynnal a chadw'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel
- Roedd polisi ymbelydredd cynhwysfawr ar waith ac roedd y rheolau lleol¹¹ wedi'u harddangos wrth ymyl y cyfarpar pelydr-X er mwyn nodi'r gweithdrefnau ymarferol i sicrhau y cyfyngir ar amlygiad staff i ymbelydredd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis gynnal asesiad risg i amlinellu'r ffordd y gall y practis ddiogelu staff rhag y risg o anaf damweiniol os yw'n parhau i ddefnyddio chwistrellau metel traddodiadol; fel arall, gallai'r practis sicrhau bod chwistrellau tafladwy ar gyfer rhoi anaesthetig lleol sy'n cynnwys system ddiogelwch ar gael i'r staff eu defnyddio.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod archwiliadau rheolaidd o ddelweddau radiograffeg wedi cael eu cynnal er mwyn helpu i sicrhau bod ansawdd y delweddau yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol (70% gwych, 20% derbyniol a dim mwy na 10% yn annerbyniol).

¹¹ Cyfres o reolau a phrotocolau ar gyfer y practis yw rheolau lleol, sy'n helpu staff i ddilyn y rheoliadau ym maes deintyddiaeth.

Argymhellwn y dylid ychwanegu mwy o weithgareddau archwilio, gan gynnwys archwiliadau o gydymffurfiaeth â chanllawiau arferion gorau ar ddihalogi WHTM 01-05, rhagnodi gwrthfotigau, trefniadau integredig ar gyfer rhoi'r gorau i smygu ac ansawdd cofnodion cleifion, at yr amserlen o archwiliadau er mwyn sicrhau ansawdd y gofal a'r driniaeth a ddarperir ymhellach.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau y caiff digon o weithgareddau archwilio eu cynnal yn y practis er mwyn asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i gleifion yn llawn er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol yn glinigol.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis bolisi rheoli cofnodion ar waith a oedd yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu gwybodaeth cleifion a rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Roedd cofnodion y cleifion ar ffurf electronig. Dywedwyd wrthym fod copïau wrth gefn yn cael eu gwneud yn rheolaidd er mwyn diogelu'r cofnodion pe byddai rhywbeth yn digwydd i'r practis neu'r system ac na allai'r staff gael gafael arnynt mwyach.

Gwelsom fod yr hen gofnodion cleifion papur yn cael eu cadw'n unol â'r canllawiau cadw perthnasol a'u bod yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.

Cadw cofnodion

Nodwyd gennym yn gynharach yn yr adroddiad ein bod wedi edrych ar sampl o gofnodion cleifion yn ystod yr arolygiad. Gwelsom fod rhai rhannau o gofnodion cleifion yr edrychwyd arnynt yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau proffesiynol. Fodd bynnag, nodwyd y meysydd canlynol y mae'n rhaid eu gwella er mwyn hybu llesiant a diogelwch cleifion yn llawn:

- Mae angen i'r cyfiawnhad dros gyfnodau adalw fod yn gyson â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal (NICE)¹² ac mae angen ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion
- Mae angen i gydsyniad cleifion i gael triniaeth gael ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion ym mhob apwyntiad
- Mae angen i'r cyfiawnhad dros gymryd radiograffau a graddau ansawdd y delweddau a gymerir eu cofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion
- Mae angen cofnodi tystiolaeth bod y driniaeth a roddir i'r cleifion yn gyson â'r canllawiau 'Delivering Better Oral Health'¹³.
- Mae angen sicrhau bod y broses o ragnodi gwrthfotigau yn dilyn y canllawiau cyfredol
- Rhaid sicrhau bod Archwiliadau Peridontol Sylfaenol (BPE) a gynhelir ar gleifion yn cael eu cofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion a bod cynlluniau triniaeth priodol sy'n adlewyrchu statws BPE y claf yn cael eu darparu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid cynnal cofnodion cleifion yn llawn yn unol â'r canllawiau cyfredol a'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion (gan gynnwys y rhai a argymhellir yn yr adroddiad hwn).

¹² <https://www.nice.org.uk/guidance/cg19>

¹³ [Delivering better oral health: an evidence-based toolkit for prevention](#)

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth dda a oedd yn amlwg drwy gyfarfodydd staff rheolaidd ac arfarniadau staff blynyddol.

Roedd y staff yn cydweithio'n dda ac roeddent yn cael y cyfleoedd hyfforddi priodol i'w galluogi i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd polisiâu a gweithdrefnau addas ar waith er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion, a oedd wedi cael eu hadolygu, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Roedd angen gwella'r polisi chwythu'r chwiban a thanberfformio rywfaint.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sy'n berchen ar Ddeintyddfa Ravenhill, ac ef yw'r unigolyn cyfrifol enwebedig¹⁴ a'r rheolwr cofrestredig hefyd¹⁵. Caiff y prif ddeintydd ei gefnogi'n dda gan reolwr practis sy'n goruchwyllo'r agweddau anghlinigol a

¹⁴ Ystyr unigolyn cyfrifol yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwyllo'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017).

¹⁵ Ystyr rheolwr cofrestredig yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

Ilywodraethu ar y practis. Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Gwelsom fod y staff yn cydweithio'n dda, ac roedd tystiolaeth o hyn i'w gweld wrth iddynt ryngweithio â'r cleifion, a thrwy eu cydweithrediad a'u hagwedd drwy gydol y broses arolygu. Eglurodd y rheolwr cofrestredig fod y practis wedi holi ynghylch defnyddio adnodd datblygu practisau Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Addysg a Gwella Iechyd Cymru¹⁶. Gwnaethom annog y practis i fynd ati i'w ddefnyddio yn y flwyddyn newydd er mwyn helpu'r tîm i gydweithio er mwyn nodi meysydd allweddol i'w gwella yn seiliedig ar ganllawiau proffesiynol a gofynion deddfwriaethol.

Roedd set gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Gwelsom fod y rhain wedi cael eu hadolygu'n flynyddol a dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod unrhyw ddiweddariadau yn cael eu hanfon at bob aelod o'r staff dros yr e-bost er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar gyfer pob un ohonynt. Gwelsom hefyd fod tystysgrifau wedi'u harddangos a oedd yn dangos bod gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus addas a bod y practis wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

At ei gilydd, roedd trefniadau llywodraethu addas ar waith yn y practis. Roedd gan y staff gontract cyflogaeth a disgrifiadau swydd a oedd yn nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau a gwelsom fod y rhain yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff.

Gwelsom dystiolaeth bod gan bob aelod o'r staff Gynllun Datblygiad Personol ar waith a bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau er mwyn helpu i fodloni eu gofynion datblygiad

¹⁶ Nod y Matrics Aeddfedrwydd yw helpu'r tîm deintyddol i gydweithio er mwyn nodi meysydd allweddol i'w gwella yn seiliedig ar ganllawiau proffesiynol a gofynion deddfwriaethol.

proffesiynol parhaus (DPP). Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod arfarniadau'n cael eu cynnal gyda phob aelod o'r staff bob blwyddyn er mwyn rhoi adborth i'r staff ar eu perfformiad ac adolygu unrhyw gyfleoedd pellach ar gyfer DPP.

Cynhelir cyfarfodydd practis yn rheolaidd er mwyn galluogi'r staff i nodi gwersi a ddysgwyd a chodi unrhyw broblemau a allai fod ganddynt. Caiff cofnodion eu cymryd o bob cyfarfod a'u hanfon at bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod unrhyw aelodau o'r staff a oedd yn absennol yn ymwybodol o'r hyn a drafodwyd.

Roedd pob aelod presennol o staff y practis wedi cael gwiriad clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn helpu'r gwasanaeth i gydymffurfio â'r gofynion rheoleiddiol sy'n nodi y dylai pob aelod o staff fod o gymeriad da.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn llwyddo i sicrhau bod nifer priodol o staff cymwys yn gweithio yn y practis bob amser, heb fod angen cyflogi nyrsys deintyddol locwm dros dro. Roedd rhaglen hyfforddiant sefydlu ar waith a oedd yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn helpu unrhyw aelodau newydd o staff i feithrin dealltwriaeth effeithiol o'u swydd newydd.

Roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban a thanberfformio ar waith a oedd yn galluogi'r staff i godi unrhyw bryderon am arferion gwaith a allai effeithio ar ofal y cleifion. Argymhellwn y dylid diweddarau'r polisi chwythu'r chwiban er mwyn rhestru AGIC fel sefydliad y gall y staff gysylltu ag ef os bydd ganddynt unrhyw bryderon.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis ddiweddarau ei bolisi chwythu'r chwiban a thanberfformio i gynnwys manylion cyswllt AGIC fel sefydliad y gall y staff gysylltu ag ef os bydd ganddynt unrhyw bryderon.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Roedd asesiad risg tân wedi'i gynnal yn y practis ym mis Hydref 2019 gan gwmni diogelwch tân. Gwnaethom edrych ar y cynllun gweithredu a gwelsom nad oedd y practis wedi cynnal archwiliad o'r cylched trydanol sefydlog hyd yma fel yr argymhellwyd yn yr asesiad risg.</p>	<p>Roedd hyn yn golygu nad oedd y practis wedi cymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu cyflogaion a phobl sy'n ymweld â'r practis yn ddigonol pe bai tân.</p>	<p>Gwnaethom godi ein pryderon â'r practis yn ystod yr arolygiad a gofynnwyd iddynt drefnu bod archwiliad o'r cylched trydanol yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl.</p>	<p>Gwnaethom dderbyn tystiolaeth y diwrnod ar ôl yr arolygiad bod peiriannydd trydanol wedi archwilio'r cylched trydan sefydlog. Cafwyd ei fod mewn cyflwr boddhaol ac nad oedd angen unrhyw waith adferol.</p>
<p>Gwelsom nad oedd gan ddau o'r tri awtoclaf a oedd yn cael eu defnyddio yn y practis gofnodydd data ar wahân i gofnodi data o bob cylch sterileiddio er mwyn sicrhau bod yr awtoclaf yn</p>	<p>Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod y ddau awtoclaf yn cyrraedd y pwysedd a'r tymheredd cywir sydd eu hangen er mwyn</p>	<p>Gwnaethom godi ein pryderon â'r practis yn ystod yr arolygiad a gofyn am i hyn gael ei unioni ar unwaith.</p>	<p>Trefnodd y practis fod profion â llaw yn dechrau'n syth ar gyfer pob cylch sterileiddio dilynol a chadarnhaodd y byddai'r profion yn parhau nes bod dau awtoclaf</p>

<p>cyrraedd y pwysedd a'r tymheredd cywir ar gyfer proses sterileiddio effeithiol. Cadarnhaodd y practis nad oedd yn cymryd cofnodion â llaw o bob cylch sterileiddio ychwaith.</p>	<p>sterileiddio offer deintyddol yn effeithiol.</p>		<p>newydd â chofnodwyr data awtomatig yn cael eu prynu.</p>
---	---	--	---

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Deintyddfa Ravenhill

Dyddiad arolygu: 09 Rhagfyr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.				

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Deintyddfa Ravenhill

Dyddiad arolygu: 09 Rhagfyr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r practis wneud mwy i hyrwyddo'r gwasanaethau y gall eu darparu i gleifion yn Gymraeg.	Safonau lechyd a Gofal 2015 Safon 3.2	Mae dwy nyrs gennym eisoes sy'n siarad Cymraeg. Rydym wedi rhoi posteri yn yr ystafell aros gyda'u henwau arnynt a ffotograff i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Maent hefyd yn gwisgo bathodynau i ddangos eu bod yn siarad Cymraeg. Mae'r mwyafrif o'n posteri hefyd ar gael yn Gymraeg ond, erbyn diwedd mis Chwefror 2020, ein nod fel practis fydd sicrhau bod pob un o'n posteri a phob un o daflenni'r practis ar gael i'n cleifion	Mrs Dawn Barrow Rheolwr y Practis	Mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		yn Gymraeg.		
Rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion y cleifion yn adlewyrchu'n llawn yr opsiynau triniaeth a gynigir ac a drafodir â'r cleifion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 20 Canllawiau'r Gyfadran Archwilio Clinigol a Chadw Cofnodion ar gyfer Practisau Deintyddol Cyffredinol	Yn dilyn cyfarfod â'r holl Ddeintyddion, maent yn ymwybodol o benderfyniadau a wneir ar y cyd a bod angen i'r penderfyniadau hynny gael eu hadlewyrchu'n fwy yng nghofnodion y cleifion wrth drafod y broses o gynllunio triniaeth.	Mr Robert Elliott Prif Ddeintydd/ Cyfarwyddwr Mrs Dawn Barrow Rheolwr y Practis.	Ar waith
Rhaid i'r practis sicrhau bod pob deintydd yn cofnodi unrhyw wiriadau hanes meddygol a gwblhawyd ar lafar gyda'r cleifion yn ystod pob apwyntiad yn briodol yng nghofnodion y cleifion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 20 Canllawiau'r Gyfadran Archwilio Clinigol a Chadw Cofnodion ar gyfer Practisau Deintyddol Cyffredinol	Ar hyn o bryd, rydym yn defnyddio ffurflenni hanes meddygol papur y mae'r cleifion yn eu llenwi cyn iddynt fynd i mewn i weld y deintydd. Mae'r deintydd wedyn yn mynd drwy'r ffurflen â'r claf tra ei fod yn y gadair, cyn llofnodi'r ffurflen bapur. Yn y dyfodol, byddwn yn integreiddio'r hanes meddygol a gofnodir ar bapur â'r system gyfrifiadurol. Bydd y deintydd hefyd yn nodi yn ei nodiadau ysgrifenedig ei fod wedi darllen a	Mr Robert Elliott Prif Ddeintydd/ Cyfarwyddwr Mrs Dawn Barrow Rheolwr y Practis	Ar waith

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		thrafod unrhyw hanes meddygol gyda'r claf.		
Rhaid i'r practis ychwanegu manylion cyswllt AGIC at y polisi ymdrin â chwynion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 21(4a)	Mae manylion AGIC bellach wedi'u hychwanegu at ein polisi cwyno.	Mrs Dawn Barrow Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau eisoes
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae angen selio'r rhan rhwng yr arwyneb gwaith a'r wal yn neintyddfa un.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 22 Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05	Caiff y gwaith hwn ei gwblhau o fewn yr ychydig wythnosau nesaf gan ein tasgmon.	Mrs Dawn Barrow Rheolwr y Practis	Mis
Rhaid i'r practis ddarparu cyfleusterau storio i'r staff storio eu heiddo personol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 22(3b)	Mae gennym gwpwrdd dwbl integredig mawr yn yr ystafell staff a chaiff clo cod allwedd ei roi arno er mwyn cadw eiddo personol y staff yn ddiogel.	Mrs Dawn Barrow Rheolwr y Practis	Mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid pecynnu offer deintyddol sydd wedi'i sterileiddio yn yr ystafell ddihalogi.	Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05	Rydym bellach wedi dechrau pecynnu offer yn yr ystafell ddihalogi. Wrth symud ymlaen, rydym yn ystyried y posibilrwydd o gyflogi nyrs ddihalogi yn y dyfodol.	Mrs Dawn Barrow Rheolwr y Practis Mr Robert Elliott Prif Ddeintydd/ Perchennog	Wedi'i gwblhau eisoes 12 mis
Rhaid defnyddio clymau plastig i gau pob bag sy'n cynnwys gwastraff peryglus pan fo'n llawn.	Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 07-01	Rydym bellach wedi cysylltu â'n cyflenwr gwastraff sydd wedi rhoi clymau plastig i ni. Rydym hefyd wedi prynu pecyn wrth gefn.	Mrs Dawn Barrow Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau eisoes.
Mae angen i'r practis gynnal asesiad risg i amlinellu'r ffordd y gall y practis ddiogelu staff rhag y risg o anaf damweiniol os yw'n parhau i ddefnyddio chwistrellau metel traddodiadol; fel arall, gallai'r practis sicrhau bod chwistrellau tafladwy ar gyfer rhoi anaesthetig lleol sy'n cynnwys system ddiogelwch ar gael i'r staff eu defnyddio.	Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 2.9	Cynhaliwyd asesiad risg o offer miniog ac rydym bellach yn defnyddio chwistrellau tafladwy diogel ar gyfer rhoi anaesthetig lleol a bandiau matrices tafladwy.	Mrs Dawn Barrow Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau eisoes

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae angen i'r practis sicrhau y caiff digon o weithgareddau archwilio eu cynnal yn y practis er mwyn asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i gleifion yn llawn er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol yn glinigol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 16 (2d)(ii))	Rydym yn bwriadu cynnal nifer o archwiliadau eleni, gan gynnwys cadw cofnodion, gwrthfotigau ac MMD. Mae archwiliad WHTM1-05 eisoes wedi'i gwblhau.	Mr Robert Elliott Prif Ddeintydd/ Cyfarwyddwr Mrs Dawn Barrow Rheolwr y Practis	12 mis
Rhaid cynnal cofnodion cleifion yn llawn yn unol â'r canllawiau cyfredol a'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion (gan gynnwys y rhai a argymhellir yn yr adroddiad hwn).	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 20 Canllawiau'r Gyfadran Archwilio Clinigol a Chadw Cofnodion ar gyfer Practisau Deintyddol Cyffredinol	Yn dilyn cyfarfod â'n holl ddeintyddion, maent bellach yn ymwybodol o'r wybodaeth ychwanegol y mae angen ei nodi yng nghofnodion y cleifion.	Mr Robert Elliott Prif Ddeintydd/ Cyfarwyddwr Mrs Dawn Barrow Rheolwr y Practis	Ar waith
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r practis ddiweddarau ei bolisi chwythu'r chwiban a thanberfformio i gynnwys manylion cyswllt AGIC fel sefydliad y gall y staff gysylltu ag ef os	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae'r polisi chwythu'r chwiban a thanberfformio wedi'i ddiweddarau erbyn hyn gyda manylion AGIC a'r Cyngor	Mrs Dawn Barrow Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau eisoes

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
bydd ganddynt unrhyw bryderon.	Rheoliad 17(3e)	Deintyddol Cyffredinol.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Robert Elliott

Teitl swydd: Prif Ddeintydd / Cyfarwyddwr

Dyddiad: 06 Chwefror 2020